# Trosolwg Prosiect Blwyddyn 1

**Mae'r plant yn gweithio mewn grwpiau i gwblhau ystod o dasgau trawsgwricwlaidd er mwyn paratoi eu cynhwysion eu hunain, datblygu eu cynhyrchion iogwrt baner fwyd eu hunain a sefydlu caffi iogwrt.**

## Cam 1: Cyflwyniad – sefydlu busnes

- Gwers fathemateg ar siapiau 2D.
- Dylunio logo gan ddefnyddio siapiau 2D a disgrifio'r siapiau a ddefnyddiwyd.

## Cam 2: O ble mae ein cynhwysion yn dod?

- Archwilio pa blanhigion a choed sy'n rhoi gwahanol ffrwythau i ni. Defnyddio iaith gymharol e.e. talach / byrrach i'w disgrifio.
- Gwers wyddoniaeth ar rannau o blanhigyn.
- Archwilio'r gwahanol hadau mewn ffrwythau, disgrifio gan ddefnyddio siâp 2D ac iaith gymharol. Plannu hadau i fynd adref gyda nhw a gofalu amdanyn nhw.

## Cam 3: Dylunio cynnyrch bwyd iach

- Gwers ar fwyta'n iach a deiet gytbwys.
- Trafodaeth ar dymhorau a chynnyrch tymhorol. Pa ffrwyth sydd yn ei dymor nawr?
- Dylunio baneri ffrwythau iogwrt. Meddwl pa siapiau 2D a ddefnyddiwyd.
- Cyfrif faint o ddarnau o bob ffrwyth sydd eu hangen.
- Ysgrifennu restr siopa o'r holl gynhwysion dan sylw.

## Cam 4: Gwneud cynnyrch bwyd iach

- Gwers ar dorri ffrwythau meddal a sut i wneud iogwrt.
- Mesur iogwrt yn fanwl gywir a gweithio o gynllun i greu baneri iogwrt.
- Cyfrif darnau o ffrwyth.

## Cam 5: Gwerthuso cynnyrch bwyd

- Gwers wyddoniaeth ar y pum synnwyr.
- Gwerthuso cynnyrch iogwrt gan ddefnyddio pob synnwyr i ddatblygu geirfa ddisgrifiadol.
- Gwerthuso'r cynnyrch terfynol yn erbyn y dyluniad. A oes yr un nifer o ffrwythau? A oes mwy neu lai na'ch cynllun?

## Cam 6: Hysbysebu a phecynnu

- Gwers ar ysgrifennu perswadiol.
- Dylunio hysbysebion ar gyfer caffis iogwrt a phenderfynu ar brisiau gwerthu.
- Dylunio a gwneud deunydd pacio ecogyfeillgar ar gyfer gwasanaeth tecawê y caffi.

© NFU 2018 – Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r adnoddau hyn at ddefnydd addysgol yn unig.